------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Medi 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Jon Antoniazzi**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol 09.00 - 09.15

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Sesiwn graffu gyda Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - rôl a blaenoriaethau'r Tasglu Gweinidogol ar y Cymoedd

(09.15 - 10.30) (Tudalennau 1 - 8)

Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Ffyniant

## Egwyl: 10.45 - 10.50

## 3 ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant - trafod blaenoriaethau cynnar y Gweinid

(10.40 - 12.00) (Tudalennau 9 - 26)

Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Jo-anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymmunedau & Trechu Tlodi
John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) ac (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 29 Medi 2016

Er mwyn ystyried:

- y dystiolaeth a roddwyd gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, o dan eitem 2
- y dystiolaeth a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, o dan eitem 3
- Blaenraglen waith y Pwyllgor

## 5 Trafod y dystiolaeth a ddarparwyd gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a chan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(12.00 - 12.10)

## 6 Craffu ar Fil Cymru Llywodraeth y DU / Ystyried Ymateb Drafft.

(12.10-12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**<u>Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol</u>**

**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**

**Papur Tystiolaeth ar y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd**

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddais y byddai Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru'n cael ei sefydlu. Gan ddefnyddio cryfderau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys gallu Llywodraeth Cymru i sbarduno newid, bydd y Tasglu’n gweithio yn ystod tymor y Cynulliad hwn i arwain ar waith adfywio a thwf cynaliadwy yn y cymoedd.

Bydd y ffordd newydd hon o fuddsoddi yn nyfodol y cymoedd yn sicrhau bod cymunedau lleol yn rhan o'r broses ac yn eu calonogi, gan gynnwys sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fewnfuddsoddi ac ysgogi twf economaidd.

Yn gyffredinol, mae ardal Cymoedd y De'n tangyflawni yng nghyd-destun Cymru gyfan ar draws ystod o ddangosyddion economaidd, gan gynnwys bod pobl yn dioddef lefelau uwch o amddifadedd a lefelau is o foddhad. Gwyddom fod incwm cartrefi’n is nag ydyw mewn ardaloedd eraill, ac mae dadansoddiad o effeithiau'r diwygiad lles yng Nghymru yn dangos bod awdurdodau lleol yn y cymoedd wedi'u heffeithio mewn modd anghyfartal.

Un o brif swyddogaethau'r Tasglu fydd cydweithio â phobl sy'n byw yn y cymoedd, busnesau, llywodraeth leol, y trydydd sector a sefydliadau dinesig i ymdrin â'r materion hyn ac i hyrwyddo’r cymoedd fel ardal i fyw, gweithio a buddsoddi ynddi. Yn benodol, rhaid inni ganolbwyntio o hyn allan ar greu swyddi a chyfleoedd newydd mewn cymunedau'r cymoedd y mae'n anodd cael gwaith ynddynt, ynghyd â gwella'r cysylltiadau rhyngddynt fel bod pobl yn gallu gweithio ymhellach i ffwrdd a chael mynediad at wasanaethau.

Nid syniad newydd yw rhoi sylw i adfywio Cymoedd De Cymru, gan greu swyddi a ysgogi twf. Bu cryn fuddsoddi mewn adfywio rhanbarth y cymoedd ers y 1960au. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi symud o brosiectau adfywio ffisegol yn ôl thema unigol o'r brig i lawr, i weithio mewn partneriaeth ar fentrau cymunedol i ddatblygu sgiliau a swyddi yn ogystal â gwella'r amgylchedd. Cynhaliwyd adolygiad ar lefel uchel o fentrau adfywio blaenorol er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn berthnasol i waith y Tasglu.

Mae gwaith sy'n sicrhau bod economi'r cymoedd yn arallgyfeirio eisoes wedi dechrau. Mae diwydiannau newydd eisoes yn cael eu cefnogi, ac mae Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau bod swyddi'n cael eu creu a'u cadw. Mae hynny'n cynnwys camau i ysgogi gweithgarwch economaidd a swyddi yn y tymor byr, fel denu mewnfuddsoddiad, busnesau newydd a chymorth ariannol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio ymdrin â materion ar gyfer y tymor hirach, drwy fuddsoddiadau strategol mewn seilwaith trafnidiaeth, band eang cyflym iawn, a chymorth ar gyfer gwaith arloesi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi annog a chefnogi gwaith o ddatblygu dinas-ranbarthau - Dinas-ranbarth Bae Abertawe, sy'n cynnwys pedwar Awdurdod Lleol sef Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, ac Abertawe; a’r Fargen Ddinesig ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd, sy'n dwyn ynghyd deg Awdurdod Lleol yn ne-ddwyrain Cymru.

Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, gyda chyllid ar y cyd y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraethau'r DU, yn cefnogi'r 10 awdurdodau lleol i weithio ar y cyd i oruchwylio gwaith ar ystod o faterion fel tai, cymorth i fusnesau, cynllunio a thrafnidiaeth. Bydd Metro De Cymru’n chwarae rôl bwysig wrth wella'r dulliau o gysylltu ar draws y rhanbarth. Disgwylir nifer fawr o fanteision fel canlyniad i hynny, gan gynnwys galluogi pobl i deithio o amgylch y rhanbarth yn haws, cael cyflogaeth a manteisio ar gyfleusterau a gwasanaethau sy'n cynnal cymunedau.

Un o rolau allweddol y Tasglu fydd datblygu'r datblygiadau presennol a sicrhau nad yw cymunedau'r cymoedd yn manteisio mewn modd anghyfartal. Y flaenoriaeth sylfaenol fydd creu cyfleoedd yn y cymunedau lleol a sicrhau bod manteision mewnfuddsoddi'n cael eu cadw a'u rhannu yn y cymoedd.

Bydd y Tasglu'n cydweithio'n agos â Phrifddinas-ranbarth Caerdydd, Dinas-ranbarth Bae Abertawe, a'r rhaglen Metro, er mwyn sicrhau'r manteision gorau i gymunedau yn y cymoedd.

Bydd y Tasglu Gweinidogol yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 22 Medi i drafod ei flaen raglen waith ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Yn dilyn hynny, bydd yn cyfarfod bob chwarter, er y gallai'r cyfarfodydd gael eu cynnal yn amlach yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Bydd cyfarfod cyntaf y Tasglu Gweinidogol yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwaith adfywio a thwf economaidd; gwella gwasanaethau prif ffrwd, yn enwedig gwasanaethau iechyd, addysg a thai; a meithrin cysylltiadau â chymunedau. Mae amrywiaeth o arbenigwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi'u gwahodd i'r cyfarfod i ddarparu tystiolaeth a fydd yn sail i ddatblygu blaenoriaethau'r Tasglu a'n rhaglen waith.

Fel Cadeirydd y Tasglu, rwy am gyflawni canlyniadau mesuradwy sy'n gwella bywydau pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Fy mlaenoriaeth gyntaf fydd ystyried sut y gallwn wella datblygu economaidd, gwaith adfywio, effeithlonrwydd ac ysbryd cystadleuol busnesau, gan gynnwys cynyddu nifer y swyddi ac enillion, datblygu'r sgiliau iawn a chefnogi datblygu cynaliadwy.

Mae aelodau'r Tasglu'n cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, a'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, ynghyd â nifer fach o aelodau ymgynghorol arbenigol allanol.

Bydd y Tasglu'n parhau i fod mewn grym am bum mlynedd, a bydd ei waith yn seiliedig ar Fwrdd Tasglu, a arweinir gan uwch swyddogion Llywodraeth

Cymru. Prif swyddogaeth y Bwrdd fydd cynghori aelodau'r Tasglu ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol, gwahanol ddulliau o feithrin cysylltiadau, ac ar sut y bydd y Tasglu'n gweithio'n unol â rhaglenni a pholisïau sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau dull integredig o ddatblygu economaidd ac o gyflwyno gwasanaethau lleol.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y Tasglu'n meithrin cysylltiadau â phob un o Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, gan fod pob Adran yn Llywodraeth Cymru'n gyfrifol ar y cyd i wella'r canlyniadau yng Nghymoedd De Cymru.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL**

---

## Cyflwyniad

Diben y papur hwn yw amlinellu fy mlaenoriaethau ar gyfer y portffolio Cymunedau a Phlant. Mae'r portffolio yn un eang a'm prif nod yw sicrhau llesiant a ffyniant economaidd i raddau mwy. O ran yr elfennau sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, mae fy mlaenoriaethau yn cynnwys ein hymrwymiad i'r cyflenwad tai a'u hansawdd, adfywio, atal digartrefedd, gan wneud fy rhan ym meysydd trechu tlodi, cydlyniant, cyfle cyfartal, hawliau dynol, cyfiawnder, cymuned y lluoedd arfog a diogelwch cymunedol.

Yn y meysydd hyn, byddaf yn cymryd nifer o gamau sy'n flaenoriaeth ac sydd wedi'u nodi ym maniffesto'r Blaid Lafur, gan gynnwys:

- *Darparu 20,000 yn rhagor o gartrefi fforddiadwy yn ystod y tymor nesaf a sicrhau bod y cartrefi hynny yn gallu addasu i'r anghenion a'r heriau sy'n newid mewn cymdeithas;*
- *Diogelu tai cymdeithasol drwy ddod â'r Hawl i Brynu i ben;*
- *Gweithio gyda chymunedau i warchod cyfleusterau lleol sy'n tynnu pobl ynghyd ac i helpu cymunedau i gymryd perchnogaeth o'u hasedau cymunedol eu hunain lle bo'n bosibl ac yn briodol;*
- *Gweithredu ar ddarpariaethau ein Deddf arloesol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac adeiladu arnynt.*

Mae yna elfennau cyffredin rhwng y camau hyn ac sydd hefyd yn gyffredin i flaenoriaethau eraill sydd gennym. Byddwn yn eu gweithredu ochr yn ochr â gweithgareddau ehangach y portffolio sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael cyfle i ffynnu a llwyddo.

Bydd fy adran yn gweithredu ar sail ymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Tai ac Adfywio

Darparu cartref diogel a chynnes yw un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i warchod tai cymdeithasol drwy ddiddymu'r Hawl i Brynu. Byddaf yn cyflwyno Bil i ddod â'r Hawl i Brynu i ben a'r hawliau cysylltiedig yn ystod blwyddyn gyntaf rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Os caiff ei phasio, bydd y ddeddfwriaeth yn diogelu ein stoc o dai cymdeithasol rhag cael ei herydu ymhellach, ac yn rhoi'r hyder i landlordiaid cymdeithasol adeiladu cartrefi newydd, gan sicrhau bod tai cymdeithasol ar gael i bobl sydd eu hangen.

Byddaf hefyd yn llunio cynigion i gyrraedd ein targed uchelgeisiol o ddarparu 20,000 yn rhagor o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Byddwn yn darparu'r cartrefi hyn mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Awdurdodau Lleol a datblygwyr preifat. Rwy'n cydnabod graddfa'r uchelgais a'r her hon. Dyma pam fy mod yn edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu tai, i

ategu'r rhaglenni sydd eisoes wedi'u sefydlu. Cyrhaeddwyd targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy a mwy yn y weinyddiaeth flaenorol.

Rwyf hefyd am ganolbwyntio'n fwy ar fodelau tai newydd sydd, er enghraifft, yn lleihau allyriadau carbon ac yn helpu i fynd i'r afael â phroblem tlodi tanwydd, a all wedyn sicrhau manteision i'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol drwy gadw pobl rhag mynd i'r ysbyty a chaniatáu iddynt gael mynd adref yn gyflymach. Mae angen inni edrych ar y tymor hirach yn ogystal ag ymateb i ddemograffeg ein cymunedau sy'n newid. Ni fydd newid ein dulliau yn hawdd nac yn rhatach o reidrwydd, o leiaf yn y tymor byr, ond mae'r manteision hirdymor yn debygol o fod yn sylweddol. Mae yna esiamplau da i'n rhoi ar y llwybr iawn ac rwyf innau am osod esiampl i eraill ei dilyn.

Byddaf yn parhau i gydweithio â landlordiaid cymdeithasol i sicrhau bod eu cartrefi yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020 a'u bod yn cael eu cynnal wedi hynny. Rydym wedi gwneud cynnydd gwych hyd yn hyn. Erbyn 31 Mawrth 2015, roedd 74 y cant o'r stoc yn bodloni'r Safon ac rwy'n rhagweld y bydd yr ystadegau newydd a gaiff eu rhyddhau yn yr hydref yn adlewyrchu mwy o gynnydd. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol sicrhau manteision cymunedol drwy eu contractau, ac rwyf hefyd yn falch iawn o gael dweud bod hyn yn sicrhau canlyniadau gwych o ran swyddi, hyfforddiant a manteision eraill yn eu hardaloedd.

Mae bron yn flwyddyn ers dechrau'r cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i landlordiaid preifat ac asiantaethau gosod tai yn sgil Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r flwyddyn gyntaf wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o ofynion y ddeddfwriaeth newydd ac, erbyn diwedd Awst 2016, roedd 19,573 o landlordiaid preifat eisoes wedi cofrestru, a thua 24,432 o landlordiaid ac asiantau wedi agor cyfrifon. Rydym nawr yn cyfathrebu'n ehangach â'n partneriaid. Wrth symud ymlaen, rydym am ganolbwyntio'n fwy ar gydymffurfio ac yn fwy byth ar y camau sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â landlordiaid gwael.

Gwnaed cynnydd da yn ystod blwyddyn gyntaf ein deddfwriaeth newydd i atal digartrefedd, gyda chyfradd atal gyffredinol o 65 y cant yn erbyn targed o 64 y cant. Mae llawer o heriau o'n blaenau, yn benodol o gofio effaith diwygiadau i'r system lesiant a'r pwysau sy'n parhau ar y pwrs cyhoeddus. Rwyf wedi ymrwymo i helpu awdurdodau lleol i weithredu'r ddeddfwriaeth ac rwy'n eu canmol nhw a'u partneriaid am eu gwaith hyd yn hyn. Mae gwerthusiad annibynnol ar y gweill, a fydd yn helpu i nodi beth yn rhagor y gellir ei wneud i helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref er mwyn osgoi effeithiau negyddol profiad o'r fath.

Mae yna drafod ers tro ar ddyfodol rhaglen adfywio arall y tu hwnt i Ebrill 2017. Mae rhaglen adfywio cyfalaf Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wedi cefnogi llawer o gymunedau ledled Cymru, gan greu 2,000 o swyddi, helpu 9,000 o bobl i gael gwaith, a darparu 1000 o gartrefi fforddiadwy a 2,300 o unedau tai. Os ydym i sicrhau cymaint o fudd â phosibl o'n rhaglen fuddsoddi nesaf, mae angen inni ofalu bod cysylltiad agosach byth rhwng ein polisïau adfywio â'n hagenda ehangach mewn cymunedau sydd dan anfantais yn economaidd. Mae angen inni roi ystyriaeth i'r cyfleoedd ehangach a ddarperir gan raglenni buddsoddi sylweddol eraill fel y Metro. Mae angen inni sicrhau hefyd ein bod yn mynd i'r afael ag elfennau cymdeithasol adfywio yn ogystal â'r elfennau gweladwy. Rhaid i'n hymrwymiad i wella cyflogadwyedd a datblygu cyfleoedd cyfartal fod yn ganolog i'n gwaith adfywio.

Mae adfywio yn un o'r meysydd polisi lle mae angen inni ystyried effaith refferendwm yr UE. Mae adfywio trefi wedi bod yn elfen ganolog o raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop bob amser yng Nghymru. Nid yw'n rhy fuan i ddechrau meddwl am natur y rhaglenni y mae angen inni eu datblygu er mwyn parhau i ddenu swyddi a sicrhau ffyniant ym mhob rhan o Gymru yn y dyfodol.

**Cyfle Cyfartal a Hawliau Dynol**

Mae fy mlaenoriaethau o ran Cydraddoldeb wedi'u hamlinellu yn yr wyth Amcan Cydraddoldeb a gyhoeddwyd ar 10 Mawrth 2016. Mae'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hynny sydd wedi ymsefydlu fwyaf yng Nghymru ac ar hyrwyddo cymunedau cydlynus. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn drafftio Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 a fydd yn cynnwys camau trawsbynciol allweddol sy'n berthnasol i bob portffolio. Bydd y Cynllun yn ei gwneud yn bosibl sefydlu cydraddoldeb a'i brif-ffrydio i waith pob Adran, gan ategu'r Amcanion Cydraddoldeb. Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei gyhoeddi eleni.

Mae gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn allweddol. Mae'r dull sydd gennym mewn golwg er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi'n ffurfiol ym mis Tachwedd. Mae Grŵp Arwain Cymru Gyfan ar gyfer Trais ar sail Anrhydedd wedi'i sefydlu i gymryd camau yng Nghymru mewn perthynas â Thrais ar sail Anrhydedd, Priodasau Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu. Rydym hefyd wedi sicrhau bod grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn fwy hyblyg fel y gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r grant yn ehangach ac i gefnogi gwasanaethau ataliol ar gyfer y rhai sy'n cael eu cam-drin yn y cartref, gan gynnwys lefelau cymorth isel a chanolig. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda chomisiynwyr Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol a chydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i dynnu sylw at enghreifftiau o arfer da fel gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sy'n lleihau'r pwysau ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rwy'n bwriadu dwyn ymlaen ddeddfwriaeth i gael gwared ar yr amddiffyniad dros gosb resymol. Nid dweud wrth rieni sut mae codi eu plentyn yw nod y ddeddfwriaeth, ond mae'n rhoi eglurder i rieni ar ffyrdd derbyniol ac effeithiol o ddisgyblu eu plentyn. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn rhan o becyn ehangach o fesurau i hyrwyddo arferion da ymhlith rhieni. Bydd y broses ddeddfwriaethol yn craffu'n llawn ar y ddeddfwriaeth arfaethedig. Byddwn yn ymgynghori'n ffurfiol ac yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn casglu safbwyntiau'r bobl berthnasol ac aelodau'r cyhoedd. Caiff y safbwyntiau a ddaw i law eu hystyried yn ofalus wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth. Rydym yn bwriadu ei chyflwyno yn ystod ail neu drydedd blwyddyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cydlyniant, Cymunedau a Gwneud ein Cymunedau'n Fwy Diogel**

Mae creu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn thema sy'n rhedeg drwy lawer o ymrwymiadau'r Llywodraeth, gan gynnwys y rheini yn fy mhortffolio i. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid mewn llywodraeth leol, ac yn y GIG a'r trydydd sector; ac rydym yn cydweithio'n agos â sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli fel yr heddlu drwy amrywiol strategaethau a phartneriaethau.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y Llywodraeth hon yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol cadarnhaol ac yn darparu cymorth gwell i ddioddefwyr. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod yna densiynau sy'n parhau a materion i'w datrys o ran cydlyniant, yn enwedig yn dilyn Refferendwm yr UE. Byddaf yn lansio Prosiectau Cynhwysiant ddiwedd Medi, a fydd yn cynnwys cyllid i gynnal y Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb.

Byddaf yn parhau i weithio i fynd i'r afael ag eithafiaeth drwy CONTEST a Bwrdd Eithafiaeth Cymru. Mae Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru, sydd hefyd wedi'i chynrychioli ar y Bwrdd Eithafiaeth, yn rhoi gwybodaeth ar lefel Cymru i'r Cabinet yn rheolaidd. Mae'n rhoi trosolwg o'r strategaeth yng Nghymru a'r gwaith i fynd i'r afael â therfysgaeth ac eithafiaeth.

Byddaf yn cyfarfod yn rheolaidd â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac â'r Prif Gwnstabliaid a byddaf yn parhau i adeiladu ar ein perthynas waith adeiladol a phositif.

Mae gan Gymru hanes amlwg o ddarparu lloches i ffoaduriaid o bob rhan o'r byd. Mae'r traddodiad hwn yn parhau, ac mae cymunedau ledled Cymru yn rhoi croeso cynnes i ffoaduriaid o Syria sydd wedi'u gorfodi i adael eu gwlad yn sgil rhyfel. Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid i sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan amlwg wrth ymateb i'r argyfwng presennol.

Ym mis Mawrth, lansiwyd ein Cynllun Cyflawni 3 blynedd ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Mae'n ddogfen fyw a chaiff ei adolygu'n rheolaidd, yn enwedig yng ngoleuni Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria a chynlluniau newydd eraill i gefnogi plant sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches.

Byddaf yn cyflawni'r ymrwymiadau yn Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf (2014), strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd eisoes wedi. Byddaf yn cydweithio â Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ac â rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu Fframwaith i wella gwasanaethau ar gyfer y rheini sydd wedi'u tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru neu sydd mewn perygl o hynny.

Byddwn yn adeiladu ar ganlyniadau'r gwerthusiad o hyfforddiant gwrth-gaethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, lle roedd tystiolaeth o waith o ansawdd. Nododd llawer o randdeiliaid eu bod ar ddeall bod Cymru yn arwain gweddill y DU yn ei hymateb i gaethwasiaeth fodern a bod y rheini sy'n gweithio y tu allan i Gymru yn cydnabod hynny.

Mae gan Gymru record dda o weithio amlasiantaethol effeithiol mewn argyfyngau sifil ar sail cydweithredu agos rhwng y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG ac asiantaethau ymateb eraill. Roedd y trefniadau diogelwch ar gyfer y Gemau Olympaidd yn 2012 ac Uwchgynhadledd NATO yn 2014 yn enghreifftiau o hyn. Mae'r profiad a gafwyd drwy'r digwyddiadau hyn yn ein helpu i baratoi ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, fel gêm derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA ym mis

Mehefin 2017. Mae arddangos ein gallu i sicrhau diogelwch yn y digwyddiadau hyn yn rhoi enw da inni ar lwyfan y byd.

Byddaf hefyd yn canolbwyntio ar gynnal y gostyngiad mewn tanau a defnyddio adnoddau'r gwasanaeth tân i fynd i'r afael â pheryglon eraill hefyd. Yn benodol, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a finnau yn nodi ein blaenoriaethau o ran sut y gall y gwasanaeth tân gefnogi'r GIG yn y ffordd orau. Bydd hyn yn cynnwys atal damweiniau domestig, hwyluso'r broses o ryddhau claf o'r ysbyty i amgylchedd diogel yn y cartref, ac ymateb i argyfyngau meddygol nad ydynt yn ymwneud â thân lle mae gan y gwasanaeth tân yr adnoddau i helpu.

Yn unol â'n Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub, rwyf hefyd yn cynnig ymgynghori ar ddyletswydd i'r gwasanaeth tân ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill sy'n ymwneud â dŵr. Mae'r gwasanaeth eisoes yn darparu ymateb o'r fath, ond mae'r perygl o lifogydd yn benodol yn rhy fawr i hyn ddibynnu ar ymrwymiad gwirfoddol.

Mae gennym berthynas gref gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub ac ag undebau diffoddwyr tân, ac rwy'n bwriadu mynd ati i sicrhau'r newidiadau hyn gyda chefnogaeth pob un ohonynt.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a chymorth effeithiol sy'n diwallu anghenion y gymuned Lluoedd Arfog yng Nghymru. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid allweddol ac wedi gwrando arnynt wrth adnewyddu ein Pecyn Cymorth. Rydym hefyd wedi llunio dogfen arall ar gyfer personél sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd, sef Croeso i Gymru. Bydd y ddwy ddogfen hon yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael ar draws portffolios Gweinidogol a chan sefydliadau cymorth fel y Lleng Brydeinig Frenhinol a Ffederasiynau Teuluoedd y Lluoedd Arfog.

Rydym yn gwybod bod cymorth o ran anghenion iechyd yn hanfodol i rai aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Dyna pam mae'r Llywodraeth hon yn parhau i fuddsoddi yn GIG Cymru i Gyn-filwyr, a bydd yn dal i gydweithio â'n partneriaid er mwyn sicrhau bod gofal iechyd i gyn-filwyr yn parhau yn y dyfodol yn ôl eu hanghenion, gan ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy di-dor.

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu llwybr cyfeirio i gyn-filwyr sydd angen tai i'w gwneud yn bosibl iddyn nhw a'u teuluoedd wneud dewis deallus ynghylch pa opsiwn sydd fwyaf priodol iddynt. Byddaf yn lansio'r Llwybr yn ystod tymor yr hydref.

Byddaf yn parhau i gynnal fy nghyfarfodydd ar gyfer Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog er mwyn tynnu ynghyd bartneriaid allweddol i drafod materion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog a thrafod mesurau cydweithredol ar sut i fynd i'r afael â'r rhain.

**Helpu i Drechu Tlodi**

Mae rhoi'r dechrau gorau posibl i blant mewn bywyd yn flaenoriaeth allweddol i'm portffolio. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r plant hynny sydd yn y perygl mwyaf o golli eu cyfleoedd. Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi pob teulu, yn enwedig y rheini sy'n

byw mewn tlodi. Byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i’r afael â thlodi plant a gwella sefyllfa aelwydydd sydd ar incwm isel drwy weithredu ein Strategaeth Tlodi Plant, a ddiwygiwyd ac a gyhoeddwyd y llynedd. Yn sail i hyn mae rhaglenni fel Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Byddaf yn parhau i ddefnyddio Dechrau’n Deg sy’n helpu i roi’r sgiliau i rieni sydd eu hangen arnynt er mwyn cefnogi datblygiad eu plentyn, gan roi’r dechrau gorau iddynt mewn bywyd. Hefyd, yn dilyn cyfnod o adolygu, rwy’n cynnig ein bod yn mireinio sut rydym yn darparu Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn sicrhau bod modd datblygu gwasanaethau sy’n mynd i’r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth i rieni a phobl ifanc, a chysylltu gwaith y rhaglen yn glir â blaenoriaeth ehangach y portffolio, sef atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae fy mhortffolio hefyd yn cynnwys rhaglenni allweddol i drechu tlodi drwy helpu pobl i gael gwaith: Cymunedau am Waith, Esgyn, a PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth). Mae Rhaglen Esgyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl sy’n byw mewn aelwydydd di-waith erbyn diwedd 2017. Hyd yn hyn mae’r cynnydd wedi bod yn dda ac rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed. Gan adeiladu ar lwyddiant Esgyn, byddwn yn parhau i ddarparu rhaglen Cymunedau am Waith, sef gwasanaeth cynghori cymunedol. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop hefyd yn cyfrannu at y rhaglen hon, a chaiff ei chyflwyno ym mhob un o’r 52 o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru er mwyn cynyddu lefelau cyflogadwyedd oedolion sy’n anweithgar yn economaidd, sy’n ddi-waith yn y tymor hir ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth; mae hefyd yn gweithio i leihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gan ategu Esgyn a Chymunedau am Waith, bydd rhaglen PaCE yn parhau i weithredu y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan ddarparu gwasanaeth cynghori cymunedol ar gyfer rhieni sy’n ystyried mai gofal plant yw’r prif ffactor sy’n eu rhwystro rhag cael hyfforddiant neu gyflogaeth.

Byddaf yn parhau i wneud fy ngorau glas i gefnogi gwirfoddolwyr a sefydliadau’r Trydydd Sector i gyflawni ein hamcanion a galluogi prif sefydliadau lleol y Trydydd Sector i barhau i gyflawni ar lawr gwlad, gyda chefnogaeth Seilwaith y Trydydd Sector ledled Cymru (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol).

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu Asedau Cymunedol. Mae yna ddiddordeb ar draws Llywodraeth Cymru yn y maes gwaith hwn a gwelwyd cryn gynnydd drwy gydweithredu cryf ar draws portffolios.

Byddaf yn parhau i weithio i liniaru effeithiau diwygiadau Llywodraeth y DU i’r system lesiant yng Nghymru drwy ddal ati i fuddsoddi yng ngwasanaethau cynghori’r rheng flaen, sicrhau hawl pobl i gymaint o fudd-daliadau â phosibl a’n Cronfa Cymorth Dewisol.

**YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYMUNEDAU A PHLANT**
**MEDI 2016.**